# Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

**2018 dccc 2**

## RHAN 2

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

## PENNOD 5

CYFFREDINOL

*Galluedd*

### 85 Cyfeillion achos ar gyfer plant nad oes ganddynt alluedd

(1) Mae’r adran hon yn gymwys i blentyn nad oes ganddo’r galluedd i ddeall—

(a) gwybodaeth y mae rhaid ei rhoi neu ddogfennau y mae rhaid eu rhoi i blentyn o dan y Rhan hon, neu

(b) yr hyn y mae arfer yr hawliau a roddir i blentyn gan y Rhan hon yn ei olygu.

(2) Caiff Tribiwnlys Addysg Cymru drwy orchymyn—

(a) penodi person i fod yn gyfaill achos ar gyfer plentyn y mae’r adran hon yn gymwys iddo, neu

(b) diswyddo’r person rhag bod yn gyfaill achos ar gyfer y plentyn,

ar gais unrhyw berson neu ar ei ysgogiad ei hun, yn ddarostyngedig i ddarpariaeth mewn rheoliadau o dan is-adran (8).

(3) Caiff cyfaill achos a benodir ar gyfer plentyn o dan yr adran hon—

(a) cynrychioli a chefnogi’r plentyn, a

(b) gwneud penderfyniadau a gweithredu ar ran y plentyn,

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

mewn cysylltiad â materion sy'n codi o dan neu yn rhinwedd y Rhan hon, yn ddarostyngedig i ddarpariaeth mewn rheoliadau o dan is-adran (8).

(4) Pan fo person wedi ei benodi i fod yn gyfaill achos drwy orchymyn gan y Tribiwnlys o dan yr adran hon, mae hawliau plentyn o dan y darpariaethau yn is-adran (5) i gael eu harfer gan y cyfaill achos ar ran y plentyn ac mae'r darpariaethau i gael eu dehongli yn unol â hynny.

(5) Y darpariaethau yw—
- (a) adrannau 11(4), 13(3), 18(3), 22(2), 23(10), 24(9), 27(4), 28(4), 28(7), 31(7), 31(8), 31(9), 32(3), 40(4) a 42(6) (dyletswyddau i hysbysu neu i roi gwybod);
- (b) adrannau 22(1), 23(11), 24(10) a 40(5) (dyletswyddau i roi copi o gynllun neu gynllun diwygiedig);
- (c) adran 20(3) (dyletswydd i roi gwybod a rhoi cyfle i drafod);
- (d) adrannau 23(8) a 24(7) (dyletswydd i adolygu cynllun yn dilyn cais);
- (e) adran 26(1), 27(1) a 32(1)(b) (dyletswyddau i ailystyried yn dilyn cais);
- (f) adran 28(1) (dyletswydd i benderfynu yn dilyn cais);
- (g) adran 70(2) (yr hawl i apelio);
- (h) adran 72 (yr hawl i apelio: personau sy'n cael eu cadw'n gaeth).

(6) O ran cyfaill achos sydd wedi ei benodi o dan yr adran hon—
- (a) rhaid iddo weithredu'n deg ac yn gymwys,
- (b) ni chaiff fod ag unrhyw fuddiant sy'n groes i fuddiant y plentyn,
- (c) rhaid iddo sicrhau bod yr holl gamau a gymerir a'r holl benderfyniadau a wneir gan y cyfaill achos er budd y plentyn, a
- (d) rhaid iddo ystyried safbwyntiau'r plentyn, i'r graddau y bo'n bosibl.

(7) Wrth benderfynu pa un ai i benodi person i fod yn gyfaill achos ai peidio neu benderfynu pa un ai i ddiswyddo cyfaill achos ai peidio, rhaid i'r Tribiwnlys roi sylw, yn benodol, i a yw'r person yn debygol o gydymffurfio (yn achos penodi) neu a yw wedi cydymffurfio (yn achos diswyddo) â'r ddyletswydd yn is-adran (6).

(8) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth bellach ynghylch cyfeillion achos, gan gynnwys (ymhlith pethau eraill) ddarpariaeth—
- (a) sy'n rhoi swyddogaethau i Dribiwnlys Addysg Cymru;
- (b) sy'n rhoi swyddogaethau i gyfeillion achos;
- (c) ynghylch gweithdrefnau mewn perthynas â chyfeillion achos;
- (d) sy'n pennu'r amgylchiadau pan gaiff person neu pan na chaiff person weithredu fel cyfaill achos;
- (e) sy'n pennu'r amgylchiadau pan fydd rhaid i blentyn gael cyfaill achos;
- (f) sy'n pennu gofynion mewn cysylltiad ag ymddygiad cyfeillion achos;
- (g) sy'n cymhwyso unrhyw ddeddfiad gydag addasiadau neu hebddynt at ddiben galluogi cyfaill achos i wneud penderfyniadau neu i weithredu ar ran plentyn mewn cysylltiad â materion sy'n codi o dan neu yn rhinwedd y Rhan hon.